# Polisi Cyfarpar Diogelu Personol

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *Mehefin 2015* |
| **Perchennog y Polisi / Canllawiau** | *Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd* |
| **Manylion Cyswllt ar gyfer y Polisi / Canllawiau** | *Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Polisi / Canllawiau** | *Newydd* |
| **Cyfeirnod** | *P015* |
| **Fersiwn** | *V1.0* |
| **Dyddiad Adolygu** | *Bob 3 blynedd* |

**1.0 Cyffredinol:**

1.1 Dylai pob aelod staff dderbyn cyfarpar diogelu personol priodol i allu cyflawni tasg yn ddiogel ac yn ddigonol.

1.2 Dylid cynnwys darparu cyfarpar diogelu personol yn yr asesiad risg ar gyfer y dasg.

1.3 Mae gan Brifysgol Aberystwyth ymrwymiad cyfreithiol o dan Adran 9 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974 i ddarparu cyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer staff, ac i dalu amdano.

**2.0 Cwmpas:**

2.1 Holl staff PA

**3.0 Deddfwriaeth:**

3.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974

3.2 Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith, 1992 (diwygiedig)

**4.0 Diffiniadau:**

4.1 "*Cyfarpar Diogelu Personol*": Cyfarpar a fydd yn diogelu unigolyn rhag risgiau iechyd a diogelwch yn y gwaith. Gall gynnwys eitemau fel helmedau diogelwch, hetiau caled, menyg, cyfarpar i ddiogelu'r llygaid, dillad llachar, esgidiau a harneisiau diogelwch.

**5.0 Ymarfer:**

5.1 Dylid cynnal asesiad risg cyn dechrau unrhyw dasg ym Mhrifysgol Aberystwyth, er mwyn nodi gofynion cyfarpar diogelu personol

5.2 Dylid nodi pob unigolyn y bydd angen cyfarpar diogelu personol arno yn yr asesiad risg

5.3 Fel rhan o'r 'hierarchaeth rheoli', dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol yn niffyg dim arall; dylid dileu tasgau sy'n gofyn am gyfarpar diogelu personol, lle bo hynny'n bosibl.

5.4 Dylid cadw taflen ddosbarthu ac arni ddyddiadau dosbarthu ac adnewyddu

5.5 Dylid asesu cyfarpar diogelu personol cyn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben

5.6 Dylid darparu cyfarwyddiadau/hyfforddiant ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelu personol os oes angen

5.7 Dylid darparu mannau storio priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol

5.8 Dylid labelu cyfarpar diogelu personol ag enw'r perchennog er mwyn osgoi rhannu drwy ddamwain

5.9 Dylid cynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn briodol, a darparu cyfarpar newydd o bryd i'w gilydd, fel sy'n briodol. Ceir dyddiadau terfyn ar gyfer rhai cyfarpar diogelu personol, megis helmedau, a dylid cadw at y rhain

5.10 Dylid rhoi gwybod i'r rheolwr llinell am unrhyw ddiffygion mewn cyfarpar diogelu personol a darparu cyfarpar newydd fel sy'n briodol

5.11 Dylid gwaredu cyfarpar diogelu personol untro ar ôl ei ddefnyddio

**6.0 Cyfrifoldebau:**

6.1 Dylai rheolwyr llinell drefnu cyfarpar diogelu personol ar gyfer staff y maent yn gyfrifol amdanynt
6.2 Cyfadrannau / Adrannau fydd yn gyfrifol am dalu am gyfarpar diogelu personol. NI ddylai aelodau staff dalu am gyfarpar diogelu personol.
6.3 Rhaid i ddefnyddwyr edrych ar ôl eu cyfarpar diogelu personol yn briodol a'i gadw yn y mannau priodol.
6.4 Dylai defnyddwyr dynnu sylw'r rheolwr llinell at ddiffygion neu niwed i'r cyfarpar diogelu personol
6.5 Dylai rheolwyr llinell ddarparu cyfarpar diogelu personol newydd yn lle cyfarpar sydd yn ddiffygiol neu wedi torri
6.6 Dylai rheolwyr llinell a defnyddwyr adolygu'r cyfarpar diogelu personol os bydd rhywbeth ynglŷn â'r dasg yn newid

**7.0 Dewis Cyfarpar Diogelu Personol:**

7.1 Dylai fod nod CE arno
7.2 Dewiswch gyfarpar sy'n addas ar gyfer y sawl fydd yn ei wisgo – ystyriwch y maint, y ffit a'r pwysau; efallai bydd angen ystyried iechyd y sawl fydd yn ei wisgo, e.e. os yw'r cyfarpar yn drwm iawn, neu os bydd gan y sawl fydd yn ei wisgo broblemau iechyd eisoes, mae'n bosibl na fydd cyfarpar diogelu personol safonol yn addas
7.3 Gadewch i ddefnyddwyr helpu i'w ddewis gan y byddant yn fwy tebygol o'i ddefnyddio.

**8.0 Gwybodaeth bellach:**

8.1 Gellir cael hyd i wybodaeth ynglŷn â'r mathau o gyfarpar diogelwch personol, a'r dewis sydd ar gael, ar wefan Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth